

# Ymdeimlo'n ddagreuol

*“Pan ddaeth yn agos a gweld y ddinas, wylodd drosti...” (adn. 41)*

## Beth am ddarllen Luc 19:28–44 ac yna myfyrio

Yr ydym am fyfrio ar dynged y gweinidogion hynny a gyfarfu i drafod y testun hwn am un diwrnod yn ychwanegol. Bu iddynt ddod i'r casgliad ar ddiwedd eu cyfarfod y dylid trafod y testun hwn yn ein dagrau ac os nad oes dagrau yn ein llygaid, yna fe ddylent fod yn bresennol yn ein henaid. Mae pregethu am uffern gydag unrhyw ddymuniad i weld pobl yn cael eu cosbi yn wyriad mawr ar Gristnogaeth. Fel y gwelwn o'r testun heddiw bu i Iesu wylo dros gyflwr a dyfodol trist Jerwsalem. Casgliad arall a ddaeth o'u trafodaethau oedd hyn – fod y syniad o Dduw sydd yn gariad yn mynd i roi pobl yn uffern angen ei wynebu yn glir; gan esbonio mai oherwydd bod Duw yn caru cyfiawnder a barn, mai dyma'r rheswm pam na fydd yn caniatáu i unrhyw un o fewn ei fydsawd i beidio â medi cosb anghyfiawnder a phechod. Bu iddynt hefyd ystyried y gwaith sydd angen ei wneud gyda golwg ar esbonio tynged yr anwyliaid hynny sydd wedi marw heb Grist. Gyda golwg ar hyn, nid oes neb yn gwybod cyflwr enaid unigolion yn yr oriau neu'r munudau hynny cyn iddynt gyfarfod â marwolaeth ac felly fod angen i ni ymddiried mewn Duw sy'n gweld yn ddyfnach i mewn i'r galon nag y medrwn ni.

Yn olaf, bu i'r gweinidogion gyntuno fod yr athrawiaeth am uffern yn hanfodol ar gyfer iechyd yr eglwys gan gadarnhau ein rhesymau dros efengylu ymhlith holl genhedloedd y ddaear. Aeth y gweinidogion yma yn ôl i'w heglwysi i gyflwyno mewn ffordd resymol yr argyhoeddiadau hynny a oedd wedi eu cadarnhau yng nghwmni'i gilydd. Nid wyf yn gwybod beth ddigwyddodd ar ôl hynny ond rwyf yn gwybod na fyddai i'r eglwysi hynny boeni am agwedd Philistaidd oedd yn cau i fyny ffynhonnau gwirionedd gyda golwg ar y testun hwn.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 9:35–36; 15:29–37; Actau 20:31

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd cymhelliad Iesu?
2. Ym mha beth y bu Paul yn ddi-baid?

## Gweddi

O Dad, cariadlon a graslon, unwaith eto rwyf yn gofyn i ti gynorthwyo dy eglwys i gymhwyso'r athrawiaeth am uffern mewn ffordd sydd yn gyson â dy Air di. Rwy'n gweddio y bydd na dagrau yn yr enaid wrth gyflwyno hyn i dy bobl, a hynny er mwyn Iesu. Amen.